# Neges diwedd wythnos


## 23.01.26

Croeso i'n cylchlythyr wythnosol, yma fe welwch chi gipolwg o'r wythnos ynghyd â negeseuon dathlu a dyddiadau ar gyfer eich dyddiadur.

## Presenoldeb

**Targed presenoldeb yr ysgol: 95.01%**

**Presenoldeb yr ysgol: 96.83%**




| Attendance | Days Absent | Weeks Absent | Lessons Missed |
|---|---|---|---|
| 95% | 9.5 | 1.9 | 48 |
| 90% | 19 | 3.8 | 95 |
| 85% | 28.5 | 5.7 | 143 |
| 80% | 38 | 7.6 | 190 |
| 75% | 47.5 | 9.5 | 238 |
| 70% | 57 | 11.4 | 285 |
| 65% | 66.5 | 13.3 | 333 |

## Y Cwestiwn Mawr

Ein cwestiwn mawr am y bythefnos nesaf...

**Allwch chi feddwl am amser pan oeddech chi eisiau rhoi'r gorau iddi ond na wnaethoch chi? Beth wnaethoch chi?**



## Parental Feedback

Fel ysgol, rydym wir yn gwerthfawrogi'r adborth a gawn gan rieni a gofalwyr. Mae eich barn yn ein helpu i ddathlu'r hyn sy'n gweithio'n dda, yn ogystal ag adnabod meysydd lle gallwn barhau i wella. Rydym yn croesawu pob sylw, boed yn fawr neu'n fach, gan eu bod yn chwarae rôl bwysig yn siapio'r profiadau a gynigiwn i'n disgyblion.
Cliciwch ar y ddolen isod i gael mynediad at ein ffurflen adborth a rhannu eich barn gyda ni.

Holiadur Rhieni / Parent Questionnaire 2025-2026

## Cyngor ECO



Rydym yn hynod falch o'n Cyngor Eco gweithgar, sydd bob amser yn chwilio am ffyrdd newydd o gefnogi a diogelu'r amgylchedd. Yn dilyn eu gwaith diweddar ar leihau'r defnydd o dyweli papur yn yr ysgol — o ran cost ac o ran gwastraff — maent wedi ymchwilio, cynllunio a phrynu tywelon llaw ailddefnyddiadwy ar gyfer pob dosbarth. Bydd y disgyblion hefyd yn cymryd cyfrifoldeb am gasglu a golchi'r tywelon eu hunain.

## 50/50




Bydd aelodau ein CRHaFf yn gwerthu rhifau ar gyfer ein menter 50/50 a fydd yn cael ei dewis ar y dydd Gwener hwnnw o bob mis. Y gost yw £12 y flwyddyn a bydd hanner yr holl elw yn mynd yn uniongyrchol i'r ysgol. Os hoffech gymryd rhan, gellir talu ag arian parod neu gyda cherdyn.

## Noson Wybodaeh i rieni

Rydym yn gwahodd pob teulu yn gynnes i Noson Wybodaeth yn neuadd yr ysgol ar ddydd Llun, 26 Ionawr 2026 am 5:30yh. Bydd y sesiwn yn rhoi gwybodaeth am y Pum Medr Mathemategol a Iechyd a Lles (Rhaglen Jigsaw), a gyflwynir gan Mr Thomas a Mrs King.

## Ser yr wythnos




Llongyfarchiadau i William, Joseff, Amelia, Maximus, Rhys, Arlo, Chester a Morgan am fod yn ser yr wythnos - 23.01.26!

## Pencanpwyr Hwb

| | SpellBlast | J2NumberBlast |
|---|---|---|
| Bl.2 – | Tia | Osian |
| Bl.3 – | Mabel | Maximus |
| Bl.4 – | Elysienna | Jack |
| Bl.5 - | Seren | Vincent |
| Bl.6 - | Myanna | Millie |




## Ein Siaradwyr Cymraeg yr wythnos

Dathlu ymdrechion y disgyblion sy'n gwneud eu gorau glas i siarad Cymraeg




**Derbyn - Nansi**
**Bl.1 - Elin**
**Bl.2 – Henry**
**Bl.3 – Louie**
**Bl.4 – Lyndon**
**Bl.5 - Gabi**
**Bl.6 - Carys**

## Wythnos Nesaf

| | |
|---|---|
| **Dydd Llun- 26.01.25** | • Gwersi Sielo<br>• Gwersi Ffidil<br>• Gwersi Gitar<br>• Bl.2 Nofio<br>• **Noson Gwybodaeth i rieni - neuadd yr ysgol - 17.30 - 18.30** |
| **Dydd Mawrth - 27.01.26** | • Addysg Gorfforol Bl 3-6.<br>• Gwersi Chwythbrennau<br>• Clwb Chwaraeon ar ôl ysgol Bl 5 a 6 |
| **Dydd Mercher - 28.01.26** | • Mercher Mwdlyd - Meithrin - Bl 2<br>• Bl.4 Nofio<br>• **Dim Clwb Digidol - Bl.3-6 oherwydd hyfforddiant staff** |
| **Dydd Iau - 29.01.26** | • Gwersi Pres<br>• Addysg Gorfforol i Meithin - Bl 2<br>• Clwb Chwaraeon ar ôl ysgol i flynyddoedd 1 a 2 - 3.15yp - 4.15yp |
| **Dydd Gwener - 30.01.26** | • Gwener Gwych Bl 3 - 6<br>• **Diwrnod pontio Bl.6 i Ysgol Bro Preseli ac Ysgol Caer Elen** |

http://www.ysgolhafanymor.cymru/home/calendar/

**Please use the link above to view future dates. This is the best way for parents to see dates and what is happening at school.**

## Absenoldebau

**Gweler isod y ddolen ar gyfer y ffurflen gais am absenoldeb. Gofynnwn yn garedig i chi gwblhau'r ffurflen hon os yw'ch plentyn/plant yn absennol.**

https://docs.google.com/forms/d/15ZT3HRC9HMgkVjIrtDvpYQstpfMnPnli4zpoqxGUBSQ/edit

## Meddygaeth

**Gweler isod y ddolen ar gyfer y ffurflen meddygaeth. Gofynnwn yn garedig i chi gwblhau'r ffurflen hon os yw'ch plentyn/plant angen meddygaeth yn yr ysgol.**

https://forms.gle/SgryLRHGLaEQp9qm9

## Gwybodaeth Ychwanegol

**Gwybodaeth am ddyddiadau gwyliau a diwrnodau HMS (diwrnodau cau ysgolion). Sylwch fod y rhain wedi'u diweddaru ac ar galendr gwefan yr ysgol.**

http://www.ysgolhafanymor.cymru/home/calendar/

**Hanner Tymor 16.02.2026 – 20.02.2026**

**HMS (ysgol ar gau i ddisgyblion) 27..03.2026**

**Gwyliau'r Pasg 30.04.2026 – 10.04.2026**

**Gwŷl y Banc (ysgol ar gau) 04.05.2026**

**Hanner Tymor 25.05.2026 – 29.05.2026**

**HMS (ysgol ar gau i ddisgyblion) 15.06.2026**

**Gwyliau'r Haf .0.2025 – 29.08.2025**

**TYWYDD GARW**

**Hoffwn atgoffa pob rhiant o'r gweithdrefnau ar gyfer tywydd garw a chau ysgolion. Mae diweddariadau yn ymwneud â chau ysgolion neu rybuddion eraill i'w gweld ar y tudalennau canlynol**

www.pembrokeshire.gov.uk/alerts

**Gallwch gofrestru ar gyfer rhybuddion drwy greu eich cyfrif eich hun drwy ddefnyddio'r cyfeiriad gwe canlynol:**

https://myaccount.pembrokeshire.gov.uk/

**Bydd tudalennau Trydar a Facebook y Cyngor hefyd yn cael eu diweddaru gyda rhybuddion:**

www.facebook.com/PembrokeshireCountyCouncil

www.twitter.com/Pembrokeshire